"A voice for skin care in Wales"
"Llais i ofal croen yng Nghymru''

# Y Grŵp Trawsbleidiol ar Ofal Croen
## Dydd Mercher 24 Hydref 2018
## 18.00 – 19.30
## Ystafell Gynadledda C/D Tŷ Hywel, Bae Caerdydd
## Cadeiriwyd gan Nick Ramsay AC

# Cofnodion y Cyfarfod

**Yn bresennol:** **Rachel Abbott** (BIP Caerdydd a'r Fro), **Liz Allen** (British Association of Skin Camoflague), **Christine Bundy** (Prifysgol Caerdydd), **Mmu Chowdhury** (BIP Caerdydd a'r Fro), **Jonathon Fox** (Leo Pharma), **Gail Grant** (AbbVie), **Rachael Hewitt** (Prifysgol Caerdydd), **Olivia Hughes** (Gofal Croen Cymru), **Dai Lloyd** (Cynulliad Cymru), **Richard Logan** (BIPABM), **Avad Mughal** (BIPABM), **Girish Patel** (BIP Caerdydd a'r Fro), **Rachel Pattison** (Prifysgol Caerdydd), **Julie Peconi** (Gofal Croen Cymru), **Karen Pontin** (Iechyd Croen Bae Abertawe), **Nick Ramsay** (Cynulliad Cymru), **Jen Ramsay** (Cynulliad Cymru), **Paul Thomas** (Gofal Croen Cymru), **Katie Wellings** (Iechyd Croen Bae Abertawe).

**Ymddiheuriadau:** **Rebecca Andrews** (Llywodraeth Cymru), **Karen Barker** (BIP Hywel Dda), **Rose Bell** (Gofal Croen Cymru), **Louisa Dallas** (Novartis), **Andrew Davies** (BIPABM), **Paul Davies** (Cynulliad Cymru), **Martin Eaglestone** (Cynulliad Cymru), **Martin Fiddler Jones** (Tenovous), **Llyr Gruffydd** (Cynulliad Cymru), **Keith Harding** (Prifysgol Caerdydd), **Debora Harry** (BIP Hywel Dda), **Glenda Hill** (BIPBC), **Jenny Hughes** (BIPABM), **Helen Mary Jones** (Cynulliad Cymru), **Peter Lewis** (Llywodraeth Cymru), **Maura Matthews** (Tenovous), **Caroline Mills** (BIP Aneurin Bevan), **Richard Oliver** (Grŵp Cymorth Hyperhidrosis y DU), **Constantinos Skinitis** (Novartis), **Henrietta Spalding** (Changing Faces), **Amanda Simonds** (Celegene), **Richard Tew** (Novartis), **Mayda Thomas** (Gofal Croen Cymru), **Dominic Urmston** (Cymdeithas Psorïasis), **Deb Vine** (Gofal Croen Cymru), **Rob Vine** (Gofal Croen Cymru), **Ann Vosper** (Gofal Croen Cymru), **Sarah Wright** (Gofal Croen Cymru).

## 1. Croeso, cyflwyniadau ac ymddiheuriadau, cofnodion y cyfarfod blaenorol

Croesawodd Nick Ramsay y grŵp. Dywedodd Julie Peconi fod sawl ymddiheuriad ac y byddai'n eu hychwanegu at y cofnodion er budd amser. Aethom drwy gofnodion y cyfarfod blaenorol a chytunodd pawb eu bod yn adlewyrchiad cywir o'r hyn a drafodwyd.

## 2. Deddfwriaeth gwelyau haul: Trafodaeth grŵp ar ymatebion gan Dai Lloyd, Cadeirydd y Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon; a Vaughan Gething, Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol; a'r camau nesaf ynglŷn â deddfwriaeth gwelyau haul - Dr Rachel Abbott

Mewn ymateb i'w hymholiadau ynghylch deddfwriaeth gwelyau haul, cafodd y grŵp trawsbleidiol ar ofal croen ddau ymateb, un gan Dai Lloyd AC, Cadeirydd y Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon, a oedd hefyd yn bresennol yn y cyfarfod, ac un gan Vaughan Gething, Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol. Yn fyr, dywedodd llythyr Dai Lloyd wrth y grŵp i ysgrifennu at Ysgrifennydd y Cabinet, a dywedodd llythyr Ysgrifennydd y Cabinet ei fod yn bwriadu ymgynghori ar ychwanegu gwelyau haul i'r rhestr o weithredoedd arbennig ar y cyfle cyntaf. Fodd bynnag, roedd yna ddryswch am pryd fyddai'r ymgynghoriad yn digwydd. Awgrymwyd y gallai'r grŵp greu tasglu bach i gasglu'r holl dystiolaeth at ei gilydd cyn i'r ymgynghoriad ddigwydd, i osgoi amserlen dynn neu ail-drefnu'r Cabinet.

Cafwyd trafodaeth gyffredinol ar sut gwnaeth y British Association of Skin Camoflage ymgyrchu'n llwyddiannus yn 2011 i gael gwared â'r modiwl gwelyau haul o hyfforddiant y diwydiant harddwch. Soniodd Dr Rachel Abbott am ddeiseb Melanoma UK sy'n cael ei chylchredeg ar hyn o bryd, a fyddai'n galw am waharddiad llwyr ar welyau haul. Mae Dr Abbott hefyd yn gweithio gyda Iechyd Cyhoeddus Cymru i gynnwys addysg ar welyau haul fel rhan o'r Rhwydwaith Ysgolion Iach, sy'n rhan o Iechyd Cyhoeddus Cymru.

Ar hyn o bryd, nid oes gan gynghorau unrhyw ddealltwriaeth o nifer y gwelyau haul yn y wlad nag unrhyw ffordd o'u rheoleiddio. Byddai trwyddedu'r gwelyau haul yn helpu i ddeall y niferoedd. Mae angen creu newid meddwl ac ail addysgu'r genhedlaeth iau a phlant ysgol gynradd.

**Cam gweithredu: Dai Lloyd a Nick Ramsay i ysgrifennu at Ysgrifennydd y Cabinet yn gofyn am eglurhad ar yr amserlen ar gyfer yr ymgynghoriad.**

**Cam gweithredu: Aelodau'r grŵp i ffurfio tasglu bach i gasglu tystiolaeth am effeithiau niweidiol gwelyau haul.**

## 3. Diweddariad ar wasanaethau dermatoleg ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda

Roedd Debora Harry, prif nyrs dros dro, rhiwmatoleg a dermatoleg, ledled y bwrdd iechyd, a Karen Barker, rheolwr cyflenwi gwasanaethau (gofal rhestredig), o'r bwrdd iechyd fod i roi diweddariad ar wasanaethau yn y cyfarfod, ond yn anffodus, ar y funud olaf, oherwydd salwch staff ac ymrwymiadau dyddiadur eraill, roeddent wedi ymddiheuro. Roedd Julie Peconi, fel Ysgrifenyddiaeth y grŵp, wedi cynnig darllen dogfen friffio ar eu rhan, ond nid oedd wedi derbyn unrhyw beth erbyn iddi adael ar gyfer y cyfarfod.

Mynegodd y grŵp siom a phryder nad oedd neb gan Hywel Dda yn bresennol yn y cyfarfod. Cafwyd trafodaeth fer ynglŷn â gwasanaethau ac awgrymwyd nad yw'r ateb locwm wedi gweithio. Codwyd ymholiad pam na chafodd y sesiynau telederm eu hehangu ond gan nad oedd neb o Hywel Dda yn bresennol nid oedd modd cael ateb. Mae'r sefyllfa yn Hywel Dda wedi bod yn eitem hirsefydlog ar yr agenda, ac o'r tu allan mae'n ymddangos nad oes gwelliannau wedi'u gwneud. Bydd Julie yn parhau i wahodd cynrychiolwyr o'r Bwrdd Iechyd i fynychu'r cyfarfodydd hyn.

**Cam gweithredu: Nick Ramsay i ysgrifennu at Vaughan Gething, Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, yn ail godi pryderon y Grŵp.**

## 4. Diweddariad ar y Rhaglen Gofal wedi'i Gynllunio

Yn anffodus, roedd Peter Lewis, yr Arweinydd Clinigol Cenedlaethol ar gyfer Gofal a Gynlluniwyd, a oedd i fod i ddiweddaru'r grŵp, wedi cael ei alw i mewn i'r theatr a hefyd wedi ymddiheuro ar y funud olaf. Roedd Rebecca Andrews o Lywodraeth Cymru wedi anfon papur briffio sydd wedi'i gynnwys gyda'r cofnodion hyn. Cafwyd trafodaeth fer ar y dasg enfawr o godio data. Oherwydd bod data dermatoleg wedi'i godio fel data cleifion allanol, mae'n aml yn anghywir.

## 5. Sesiwn adborth ar yr ymchwil ynghylch cadw meddygon dermatoleg - Dr Avad Mughal a Dr Julie Peconi

Dechreuodd Dr Avad Mughal trwy roi cyd-destun i'r ymchwil hwn: diffyg 200 a mwy o ddermatolegwyr ymgynghorol yn y DU, gyda 7 i 9 o swyddi yng Nghymru. O fewn yr 8 i 10 mlynedd diwethaf, mae 8 o ymgynghorwyr wedi gadael eu swyddi yng Nghymru gyda 5 yn symud i Loegr i weithio.

Wedi'i ariannu gan AbbVie ac yn gweithio gyda'r Ysgol Feddygol ym Mhrifysgol Abertawe, bydd Gofal Croen Cymru yn cynnal cyfweliadau ffôn i ddeall y rhwystrau i recriwtio a chadw yng Nghymru. Bydd cwestiynau'r cyfweliadau yn canolbwyntio ar 4 prif thema: materion personél a rheoli, seilwaith, cydnabyddiaeth ariannol, a ffactorau nad ydynt yn ymwneud â'r gwaith. Gwahoddodd Avad sylwadau gan y grŵp a bu trafodaeth fer ar y themâu hyn.

Crybwyllwyd y bydd Cymdeithas Dermatolegwyr Prydain yn y flwyddyn newydd hefyd yn archwilio pam nad yw'r rheini sydd â chymhwyster yn mynd i mewn i ddermatoleg fel proffesiwn. Mae Ruth Murphy, y Llywydd a'r Cadeirydd, yn awyddus i ddeall y materion yn llwyr. Mae hyd yn oed swyddi gwag yn Llundain, yn y prif ganolfannau hyfforddi. Fodd bynnag, mae galw mawr am swyddi hyfforddi. Cafwyd trafodaeth fer am y rhesymau posibl dros y swyddi gwag a'r strwythur gwahanol yn Lloegr. Bydd Avad a Julie yn cadw'r grŵp wedi'i ddiweddaru ar ganfyddiadau.

## 6. Unrhyw fater arall

Ar 28 Tachwedd, mae Cyfarfod Canser y Croen yng Nghaerdydd. I'r rhai sydd â diddordeb mewn mynychu, rhowch wybod i Rachel Abbott.

Cododd Liz Allen ymholiad ar drwyddedu gorfodol ar gyfer gweithdrefnau arbennig ar rannau corfforol personol. Yn gyffredinol, teimlai'r grŵp y byddai trwyddedu yn cynnwys rhannau corfforol personol. Hefyd, cafwyd ymholiad ynghylch a fyddai eli haul yn cael ei ddileu o'r Pwyllgor Ymgynghorol ar gyfer Sylweddau Ffiniol (ACBS) ond y teimlad cyffredinol oedd na fyddai, am fod BAD wedi ymateb i hynny.

Bydd ein cyfarfod nesaf mewn tua 6 mis. Bydd Julie Peconi yn dosbarthu amser a dyddiad yn fuan.